IEITHYDDIAETH

Fel rheol bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Ieithyddiaeth y gallu i:

- Werthfawrogi systemau dadansoddol cyflawn, dosbarthiadau cadarn o agweddau penodol ar ymddygiad pobl, fframweithiau damcaniaethol a dulliau ymchwilio ar gyfer cynllunio prosiectau, canfod data newydd a dod i gasgliadau. Bydd gennych wybodaeth sylweddol am ddamcaniaeth ac ymarfer mewn meysydd astudio eraill yn cynnwys swyddogaeth iaith mewn cymdeithas, ei natur wybyddol, y ffordd y mae'n cael ei dysgu, yn newid ac yn rhan o'r ystod gyfathrebu lawn.
- Asesu damcaniaethau ac esboniadau cyferbyniol, yn cynnwys rhai disgyblaethau eraill, yn meddwl yn ddwys am faterion anodd ac yn hyderus wrth geisio deall systemau newydd.
- Crynhoi a syntheseiddio gwybodaeth a datblygu strategaethau datrys problemau.
- Rheoli dadl a meddwl a barnu'n annibynnol.
- Barnu a gwerthuso tystiolaeth yn feirniadol, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio iaith mewn cyd-destunau cymdeithasol, proffesiynol a galwedigaethol eraill, cyfieithu a dehongli.
- Caffael gwybodaeth gymhleth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys llyfrgelloedd, y rhyngrwyd a thrwy drafod gyda chymheiriaid, a meddwl yn greadigol am systemau cymhleth a'u datblygu.
- Ysgrifennu traethodau ac adroddiadau ymchwil gan ddefnyddio'r cywair a'r arddull briodol.
- Gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh datblygedig.
- Ystyried y materion moesegol sydd ynghlwm wrth gasglu data a storio data.
- Cyfathrebu'n effeithiol ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Deall dynameg cyfathrebu.
- Gweithio'n annibynnol, gan ddangos gallu i fod yn flaengar, i reoli eich hun a rheoli amser.
- Bod yn oddefgar, agored a dangos diddordeb wrth weithio gydag eraill i gyflawni amcanion cyffredin.
- Rheoli'ch dysgu unigol yn hunanfeirniadol a bod yn hunanymwybodol.

Trosolwg o Ieithyddiaeth

Mae Ieithyddiaeth yn ymwneud ag iaith yn ei holl ffurfiau, llafar, ysgrifenedig ac wedi'i harwyddo. Un o ganfyddiadau allweddol ieithyddiaeth yw bod iaith ac ymddygiad ieithyddol yn strwythuredig iawn ac y gall natur y strwythurau hyn gael ei hegluro trwy astudiaeth systematig gan ddefnyddio dulliau damcaniaethol ac empirig.

Mae unigolion sydd wedi graddio mewn Ieithyddiaeth yn dysgu ystod eang o sgiliau y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o alwedigaethau. Mae'r rhain yn cynnwys newyddiadurwyr darlledu, gweinyddwyr y Gwasanaeth Sifil, athrawon Saesneg fel iaith dramor neu ail iaith, dehonglwyr, cyfieithwyr, geiriadurwyr, golygyddion cyhoeddi, darllenwyr proflenni, therapyddion lleferydd ac iaith ac ymgynghorwyr recriwtio.

Ffynhonnell: CIHE 2006